Briff Ymchwil

# Cynllunio gofodol morol - nodyn ymchwil

Awdur: **Rachel Prior a Nia Seaton**

Dyddiad: **Mai 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Rachel Prior a Nia Seaton**
Dyddiad: **Mai 2016**
Rhif Papur: **16-024**

**Agraffwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.**

**Hyrwyddwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 6328**
**: Nia.Seaton@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Cynllunio gofodol morol - nodyn ymchwil

Yn sgil Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sefydlwyd system newydd ar gyfer cynllunio ym moroedd y DU. Mae cynllunio gofodol morol yn creu fframwaith ar gyfer gweithgareddau yn nyfroedd y glannau a'r môr mawr. Nod y broses gynllunio yw sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall pa weithgareddau sy'n debygol o gael eu caniatáu a datrys, cyhyd ag y bo modd, unrhyw wrthdaro'n ymwneud â defnyddio'r môr a hynny ar sail ofodol. Mae'r papur briffio hwn yn rhoi cyflwyniad i gynllunio gofodol morol ac yn amlinellu hynt y gwaith hyd yma yng ngwledydd y DU.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynllunio Gofodol Morol

## Cyflwyniad

Yn sgil ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009***, sefydlwyd system newydd ar gyfer cynllunio ym moroedd y DU. Mae cynllunio gofodol morol yn creu fframwaith ar gyfer gweithgareddau yn nyfroedd y glannau a'r môr mawr. Nod y broses gynllunio yw sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall pa weithgareddau sy'n debygol o gael eu caniatáu a datrys, cyhyd ag y bo modd, unrhyw wrthdaro'n ymwneud â defnyddio'r môr a hynny ar sail ofodol. Mae'r papur briffio hwn yn rhoi cyflwyniad i gynllunio gofodol morol ac yn amlinellu hynt y gwaith hyd yma yng ngwledydd y DU.

## Y Broses Gynllunio Morol

Mae Deddf y Môr yn nodi'r broses benodol ar gyfer cynllunio morol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ysgrifennydd Gwladol y DU gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig, cyhyd ag y bo modd, i fabwysiadu **Datganiad Polisi Morol.**

Mae'r Datganiad yn nodi'r amcanion lefel uchel ar gyfer amgylchedd morol y DU a fframwaith ar gyfer datblygu cynlluniau morol. Mae gwahanol weinyddiaethau wedyn yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau i gyflawni'r amcanion lefel uchel yn y Datganiad:

- Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am ddyfroedd y glannau a'r môr mawr o amgylch Lloegr;
- Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddyfroedd y glannau a'r môr mawr o amgylch Cymru;
- Mae Llywodraeth yr Alban yn gyfrifol o dan Ddeddf y Môr am ddyfroedd y môr mawr o amgylch yr Alben ond mae wedi cyflwyno'i deddf môr ei hun ar gyfer dyfroedd ei glannau; ac
- Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon gyfrifoldeb o dan Ddeddf y Môr am ddyfroedd y môr mawr o amgylch yr Gogledd Iwerddon ond mae wedi cyflwyno'i deddf môr ei hun ar gyfer dyfroedd ei glannau.

Unwaith y bydd cynlluniau'n cael eu mabwysiadu, rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau gorfodi, caniatáu a thrwyddedu a fydd yn effeithio ar yr amgylchedd morol, gadw at ofynion y cynllun morol perthnasol wrth wneud hynny neu, os nad oes cynllun morol wedi'i baratoi, rhaid iddynt gadw at ofynion Datganiad Polisi Morol.

## Datganiad Polisi Morol y DU

Mabwysiadodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig **Ddatganiad Polisi ar y cyd** ym mis Mawrth 2011. Roedd hwn yn nodi'r strategaeth hirdymor ar gyfer rheoli datblygu cynaliadwy yn ardal forol y DU. Mae'r Datganiad Polisi Morol yn cyflwyno gweledigaeth gyffredin i holl weinyddiaethau'r DU, sef *'sicrhau cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol'*. Mae'r Datganiad Polisi yn cynnwys nifer o amcanion lefel uchel ar gyfer grŵp moroedd y DU a hynny o dan bum pennawd:

- sicrhau economi morol cynaliadwy;
- sicrhau cymdeithas gref, iach a theg;
- byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol;
- hyrwyddo llywodraethu da; a
- defnyddio gwyddoniaeth mewn ffordd gyfrifol.

## Cynlluniau Morol

Mae Deddf y Môr yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu cynlluniau morol ar gyfer yr holl ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y **Datganiad Polisi Morol.**

Mae'r cynlluniau morol yn nodi'n fanwl sut y bydd amcanion polisi'r Datganiad Morol yn cael eu cyflawni'n lleol ac maent yn rhoi canllawiau ar sut y caiff y gweithgareddau a'r adnoddau morol yn yr ardaloedd eu rheoli. Mae'r cynlluniau'n cynnwys canllawiau gofodol sy'n nodi lle y mae caniatâd ar gyfer gwahanol weithgareddau'n fwyaf tebygol o gael ei roi. Rhaid seilio'r cynlluniau ar dystiolaeth a rhoi cymaint o sicrwydd â phosibl i randdeiliaid gan gydnabod hefyd y bydd angen eu haddasu dros gyfnod wrth i'r amgylchedd newid. Disgwylir i'r broses o ddrafftio'r cynlluniau hefyd ystyried effaith bosibl y gwahanol weithgareddau yn y tymor hir.

Cyn mynd ati i baratoi'r Cynlluniau Morol, rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gyhoeddi Datganiadau o Gyfranogiad y Cyhoedd sy'n nodi sut y gall rhanddeiliaid fod yn rhan o'r broses a sut y gallant roi sylwadau ar y cynlluniau. Mae'r Datganiadau hyn yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf y Môr a rhaid eu cyhoeddi cyn dechrau paratoi Cynlluniau Morol.

## Yr Amserlen ar gyfer Cynllunio Morol yng Nghymru

Ar 16 Chwefror 2011, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad **ynghylch sut yr oedd yn bwriadu mynd ati i baratoi cynlluniau morol.** Yn nogfen ymgynghori 2011, nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn gobeithio mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd 2012/13. **Yna, cyhoeddodd** Llywodraeth Cymru mai ei nod oedd cael fersiwn gychwynnol o'r Cynllun Morol Cenedlaethol ar waith erbyn 2015. Fodd bynnag, er bod drafft cychwynnol o'r cynllun wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2015, ni ddisgwylir i'r cynllun gael ei fabwysiadu cyn diwedd 2016- dechrau 2017**.**

### Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru - drafft cychwynnol

Nod y Cynllun drafft yw sicrhau bod gan Gymru foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol erbyn 2036. Mae'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer dyfodol dyfroedd y glannau a'r môr mawr o amgylch Cymru erbyn 2036 sef:

- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ecosystem i sicrhau y bydd moroedd Cymru yn iach ac yn gryf a bydd yn cynnal economi gynaliadwy a ffyniannus;
- Gwella iechyd a lles drwy sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau amgylchedd y môr;
- Creu mwy o swyddi a chyfoeth drwy'r twf glas a, drwy hynny, helpu cymunedau arfordirol i gryfhau, helpu i greu economi fwy ffyniannus a theg ac i greu diwylliant bywiog; ac
- Sicrhau bod ardal forol Cymru yn cyfrannu at ddiogelu ynni ac at gyrraedd targedau allyriadau i leihau'r newid yn yr hinsawdd drwy ddefnyddio technolegau carbon isel mewn ffordd gyfrifol.

Mae'r drafft yn rhestru nifer o feysydd polisi sy'n cynnwys argymhellion polisi manwl ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r polisïau'n cael eu rhannu'n ddwy adran. Mae polisïau trawsbynciol cyffredinol yn berthnasol i holl amgylcheddau morol ac economi morol Cymru.

Mae polisïau sy'n ymwneud â sectorau penodol yn gymwys i weithgareddau economaidd penodol yn ymwneud ag amgylchedd y môr, gan gynnwys y diwydiant agregau, dyframaeth, amddiffyn, ynni (ffynonellau confensiynol a ffynonellau adnewyddadwy), pysgodfeydd, porthladdoedd a llongau, ceblau tanfor, a thwristiaeth a hamdden. Mae pob polisi sector yn cynnwys gwybodaeth am y cyd-

destun, y dulliau llywodraethu presennol, y rhyngweithio allweddol â diwydiannau eraill, y dyfodol, ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar y gweithgaredd dan sylw.

Mae drafft o'r Cynllun yn datgan y dylai pawb sy'n dymuno datblygu prosiectau neu gynigion ar gyfer amgylchedd y môr ystyried y polisïau yn y Cynllun wrth gyflwyno ceisiadau a chynigion, ac y dylai pob awdurdod sy'n gwneud penderfyniadau gyfeirio at y polisïau wrth wneud asesiadau a phenderfyniadau. Mae'n nodi y dylid trin y polisïau trawsbynciol a'r polisïau ar gyfer sectorau penodol yn y cynllun terfynol fel polisi cynllunio.

Mae'r drafft cychwynnol hefyd yn nodi sut bydd y Cynllun Morol Cenedlaethol yn cyd-fynd â chynlluniau a pholisïau sy'n bod eisoes, amcanion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a ymgorfforir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru ) 2016.

Cyn y gellir mabwysiadu Cynllun, bydd angen i Lywodraeth Cymru ofyn caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn Llywodraeth y DU ar gyfer unrhyw agweddau ar y cynllun a allai effeithio ar feysydd heb eu datganoli, fel prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ar y môr.

Ar ôl mabwysiadu'r cynllun, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r gwybod i'r Cynulliad, o leiaf unwaith bob chwe blynedd, am hynt y gwaith o'i weithredu.

## Datblygu cynlluniau morol ledled y DU

### Lloegr

Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi dirprwyo ei swyddogaethau cynllunio morol i'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO). Corff cyhoeddus anadrannol yw'r Sefydliad Rheoli Morol. Mae'n gyfrifol am **ddatblygu Cynlluniau Morol ar gyfer dyfroedd y glannau a'r môr mawr.** Mae un ar ddeg o ranbarthau cynllunio morol wedi'u sefydlu o amgych arfordir Lloegr, a bydd gan bob un ohonynt Gynllun Morol sy'n ymdrin â gweithgareddau dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu fel rhan o raglen dreigl ar gyfer y gwahanol ardaloedd, a'r nod yw paratoi cynlluniau ar gyfer holl ddyfroedd y glannau a'r môr mawr erbyn 2021. Ar ôl i'r cynlluniau gael eu mabwysiadu **cânt eu hadolygu bob tair blynedd.**

Cynlluniau dyfroedd y glannau a chynllun y môr mawr yn y dwyrain oedd yn y ddau gynllun cyntaf a ddewiswyd yn Lloegr. Yn dilyn cyfnod o baratoi, ymgynghori ac adolygu, cyhoeddwyd y cynlluniau terfynol ar gyfer yr ardaloedd hyn ym mis Mehefin 2014, a chawsant eu diweddaru i gynnwys trosolwg o'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2015.

Dyfroedd y glannau ac ardal y môr mawr yn y de oedd y trydydd a'r pedwerydd rhanbarth yn Lloegr a ddewiswyd at ddibenion cynllunio morol. Mae'r Sefydliad Rheoli Morol yn disgwyl **rhyddhau drafft cyntaf** y cynlluniau morol ar gyfer yr ardaloedd y De er mwyn ymgynghori yn eu cylch rywdro yn y gaeaf 2015-2016.

Bydd yn rhaid i'r MMO a Llywodraeth Cymru gydweithredu'n drawsffiniol i ddatblygu cynlluniau ar gfer ardaloedd fel Aber Afon Dyfrdwy ac Aber Afon Hafren.

### Yr Alban

Yn yr Alban, creodd ***Deddf Môr (yr Alban) 2010*** fframwaith cynllunio gofodol newydd ar gyfer rhanbarth dyfroedd y glannau yn yr Alban, a Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am gynllunio yn nyfroedd y môr mawr o dan Ddeddf Môr y DU. Yn dilyn cyfnod o gynllunio ac ymgynghori,

cyhoeddwyd **Cynllun Morol Cenedlaethol** ym mis Mawrth 2015. Mae'r cynllun yn nodi polisïau Llywodraeth yr Alban ar gyfer dyfroedd y glannau a'r môr mawr.

Hefyd, rhoddodd ***Deddf Môr (yr Alban) 2010*** bŵer i Lywodraeth yr Alban greu Rhanbarthau Morol. Y rhanbarthau sy'n gyfrifol am gyflwyno'r polisďïau Cynllun Cenedlaethol yn lleol. Mae'r cynlluniau rhanbarthol yn ymdrin ag ardal y glannau'n unig. Sefydlwyd **11 o rananbarthau morol yn yr Alban**. Caiff Partneriaeth Cynllunio Morol ei sefydlu ym mhob rhanbarth i ddatblygu cynlluniau morol rhanbarthol. **Bydd y bartneriaeth yn cynnwys** person a enwebir gan Weinidogion yr Alban, yn ogystal ag un neu ragor o awdurdodau cyhoeddus a/neu randdeiliaid. Cynhaliwyd prosiectau peilot lleol i roi agweddau gwahanol ar reoli a chynllunio morol ar brawf fel rhan o Fenter Amgylchedd Morol Cynaliadwy yr Alban. Bydd y cynlluniau rhanbarthol cyntaf yn cynnwys Clyde ac Ynysoedd Shetland.

### Gogledd Iwerddon

Cafodd ***Deddf y Môr (Gogledd Iwerddon) 2013*** ei mabwysiadu yng ngogledd Iwerddon ym mis Medi 2013. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatau i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fabwysiadu fframwaith cynllunio gofodol morol ar gyfer dyfroedd y glannau. Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, fel gweithrediaeth yr Alban, gyfrifoldeb o dan Ddeddf Môr y DU dros gynllunio yn nyfroedd y môr mawr.

Mae Cynllun Morol Gogledd Iwerddon yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan Dîm Cynllunio Morol Adran yr Amgylchedd. Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2012, dywedodd Adran yr Amgylchedd wrth yr awdurdodau perthnasol am ei bwriad i ddechrau gweithio ar Gynllun Morol Gogledd Iwerddon. **Ym mis Ionawr 2016,** dywedodd yr Adran ei bod yn gobeithio ymgynghori ynghylch cynllun drafft erbyn diwedd mis Mawrth 2016 ond mae'n aros nes bydd y Arfarniad o Gynaliadwyedd, a fydd yn cyd-fynd â'r cynllun drafft, **wedi'i gwblhau.**

## Cyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol

Ym mis Gorffennaf 2014, cafodd y **Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol** ei mabwysiadu gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod fframwaith cyffredin ar gyfer cynllunio gofodol morol drwy'r UE ac mae'n ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth baratoi cynlluniau morol erbyn 31 Mawrth 2021. Rhaid i Aelod-wladwriaethau adolygu'r cynlluniau hyn bob 10 mlynedd o leiaf. Mae'r Gyfarwyddeb yn rhoi hawl i'r aelod-wladwriaethau benderfynu ar eu hamcanion eu hunain wrth baratoi eu cynlluniau, ond mae'n nodi rhai meini prawf sylfaenol y dylai Aelod-wladwriaethau eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys: mabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar ecosystemau; rhoi'r un flaenoriaeth i'r effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd; sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid; defnyddio'r data gorau sydd ar gael a sicrhau cydweithrediad trawsffiniol. Mae rhagor o wybodaeth yng **nghrynodeb y Gwasanaeth Ymchwil (PDF 265KB)** o'r Gyfarwyddeb.

Mae holl gynlluniau morol y DU wedi'u eu datblygu'n unol â gofynion y Gyfarwyddeb.

## Ffynonellau Allweddol

**Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** (Saesneg yn unig)

**Deddf y Môr (yr Alban) 2010** (Saesneg yn unig)

**Deddf y Môr (Gogledd Iwerddon) 2013** (Saesneg yn unig)

**Marine Plan stakeholder newsletter** (Saesneg yn unig), Adran yr Amgylchedd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon Ionawr 2016

**Marine Plan Northern Ireland**, (Saesneg yn unig), Adran yr Amgylchedd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (tudalen we).

**UK Marine Policy Statement (pdf 958KB) 2011** (Saesneg yn unig) Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru

**National Marine Plan Online**, (tudalen we) (Saesneg yn unig)Llywodraeth yr Alban.

**Regional Planning,** (tudalen we) (Saesneg yn unig) Llywodraeth yr Alban.

**Marine planning in England** (gwefan) (Saesneg yn unig), Llywodraeth y DU.

**East inshore and East offshore marine plan areas** (tudalen we) (Saesneg yn unig), Llywodraeth y DU.

**South inshore and South offshore marine plan areas** (tudalen we) (Saesneg yn unig), Llywodraeth y DU.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** (gwefan) Llywodraeth Cymru.

**Drafft cyntaf Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** (PDF 8.2MB), Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015